



Annwyl Cwsmer

## Cau Cangen nas Cynlluniwyd

### Swyddfa Bost Pontrobert Pontrobert, Meifod, Powys, SY22 6HY

Â thristwch rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod am farwolaeth postfeistr cangen Pontrobert yn ddiweddar. O ganlyniad, caeodd y gangen hon ddydd Llun 6 Mai 2024. Mae'n ddrwg gennyf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod y tro hwn.

Mae Swyddfa'r Post wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhwydwaith i wneud yn siŵr ei fod yn dal i ateb gofynion newidiol y cwsmeriaid mewn hinsawdd economaidd heriol dros ben. Bu'r adolygiad hwn yn archwilio'r rhwydwaith ar lefel leol yn fanwl iawn, gan ddadansoddi galw cwsmeriaid a hygyrchedd cynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Cafodd y canlyniadau eu hystyried wrth i ni baratoi cynlluniau ar gyfer y Rhwydwaith a gwneud yn siŵr fod ein cyllid ac adnoddau yn cael eu defnyddio i roi'r budd gorau posibl i'n holl gwsmeriaid. Ar hyn o bryd, felly, nid ydym yn bwriadu cael cangen yn lle Swyddfa Bost Pontrobert.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Byddai unrhyw newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu trafod yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn y gangen i roi gwybodaeth i gwsmeriaid.

Byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrdau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Rydym yn ymddiheuro am yr anhwylostod a allai ddigwydd oherwydd y cau. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post. Mae'r manylion llawn am ganghennau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ei gwefan, [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennym unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

*Carol Y Williams*

**Carol Y Williams**  
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)

[Postofficeviews.co.uk](http://Postofficeviews.co.uk)

FREEPOST Your Comments

## Canghennau eraill

Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan

[www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)

---

### Swyddfa Bost Llanfihangel

Haulfryn  
Llanfihangel  
Llanfyllin  
Powys  
SY22 5JH

### Gwasanaethau

Yn cynnig gwasanaethau tebyg.

### Yr oriau agor

Dydd Mercher	09:00 – 13:00
--------------	---------------

### Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa.

### Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.7 milltir o gangen Pontrobert, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl yr heol y tu allan i'r gangen. Mae trafndiaeth gyhoeddus leol ar gael.

---

### Swyddfa Bost Llanfair Caereinion

Sgwâr y Farchnad  
Llanfair Caereinion  
Y Trallwng  
Powys  
SY21 0RJ

### Gwasanaethau

Yn cynnig gwasanaethau tebyg, yn ogystal ag Arian Teithio Ar Gais mewn Ewros a Doleri a Threth Cerbydau.

### Yr oriau agor

Llun - Sadwrn	07:00 – 20:00
Dydd Sul	08:00 – 20:00

### Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a llawr gwastad wrth y fynedfa.

### Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 5.8 milltir o gangen Pontrobert, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl yr heol y tu allan i'r gangen. Mae trafndiaeth gyhoeddus leol ar gael.

---

---

### Swyddfa Bost Llanfyllin

Siop Spar  
Y Stryd Fawr  
Llanfyllin  
Powys  
SY22 5AA

### Gwasanaethau

Yn cynnig gwasanaethau tebyg, yn ogystal ag Arian Teithio mewn Ewros a Doleri a Threth Cerbydau.

### Yr oriau agor

Dydd Llun	07:00 – 20:00
Dydd Mawrth	07:00 – 20:00
Dydd Mercher	07:00 – 14:00 16:00 – 20:00
Dydd Iau	07:00 – 20:00
Dydd Gwener	07:00 – 20:00
Dydd Sadwrn	07:00 – 18:00
Dydd Sul	12:00 – 18:00

### Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws awtomatig llydan a mynedfa wastad.

### Cyrraedd yno

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 6.1 milltir o gangen Pontrobert, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae yna faes parcio i gwsmeriaid o flaen y gangen. Mae trafndiaeth gyhoeddus leol ar gael.

---

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

**Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd<sup>1</sup>/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk**

**[Comments@postoffice.co.uk](mailto:Comments@postoffice.co.uk)**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.